

**NHSRF CANGEN GWENT**

**CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL**

18fed Mawrth 2024

**AGENDA**

1. Croeso
2. Ymddiheuriadau
3. Adroddiad y Cadeirydd/Ysgrifennydd
4. Anerchiad gan Angela Johnson, Swyddog Datblygu Rhanbarthol Cymru
5. Adroddiad y Trysorydd
6. Adroddiad yr Ysgrifennydd Aelodaeth
7. Ethol aelodau newydd i'r Pwyllgor
8. Ail-ethol aelodau presennol y Pwyllgor
9. Tynnu Elusen Ddewisol ar gyfer eleni
10. Pleidlais o ddiolch
11. Unrhyw fater arall

## **Codi Arian ein Cangen**

Heddiw, fel sy'n arferol yn ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, rydym yn chwilio am eich enwebiadau ar gyfer **elusen ddewisol** ar gyfer eleni. Yn ddelfrydol bydd yr elusen ddewisol yn un lleol ond dylai gefnogi iechyd a lles y rheiny sy'n rhan o'n cymuned. Wrth edrych yn ôl dros y blynyddoedd diwethaf, gellir rhoi clod mawr i aelodau'r Gangen am ein hymdrechion i godi arian at elusen. Rydym wedi cyrraedd ein targed o £500 yn gyson ac mae'r elusennau sydd wedi elwa yn cynnwys, ymhlith eraill – cronfa Cardiolleg RGH, Cymorth i Ferched Casnewydd, Cymdeithas Clefyd Motor Niwron, Grŵp Strôc Cwmbrân, The Silver Line, Apêl Wcráin y Groes Goch ac Ambiwlans Awyr Cymru.

At hyn, rydym wedi cael siaradwyr gwadd o nifer o elusennau eraill ac rydym hefyd wedi casglu swm sylweddol yn ein cyfarfodydd ar gyfer y rheini.

---

## **Clwb Llyfrau'r Gangen?**

Efallai eich bod yn ymwybodol bod gan y NHSRF cenedlaethol Glwb Llyfrau y gallwch ymuno ag ef drwy e-bostio [sherry.smith2@nhs.net](mailto:sherry.smith2@nhs.net) neu [debbie.arnold4@nhs.net](mailto:debbie.arnold4@nhs.net). Cyhoeddir argymhellion o ran llyfrau i'w darllen bob chwarter a gellir dod o hyd i'r argymhellion hefyd ar dudalen Facebook NHSRF. Mae rhai o'n haelodau eisoes wedi ymuno. Mae argymhellion fel arfer ymhlith y Sunday Times Best Sellers a'r llyfrau diweddaraf oedd:-

The Trial gan Rob Rinder, The Whalebone Theatre gan Joanna Quinn a Mudlarking: Lost and Found gan Lara Maiklem

Gwyddom fod llawer ohonoch yn mwynhau darllen a tyst i hyn oedd yr adolygiadau helaeth o lyfrau a gawsom yn ystod y cyfnod clo. Os oes gan unrhyw un ddiddordeb mewn sefydlu Clwb Llyfrau ar gyfer ein Cangen yna dewch i gael sgwrs. Mae rhestr ar gyfer enwau ar gael yn y cyfarfod heddiw ar gyfer y rhai sydd â diddordeb.

---

## **Cyswllt â Chartref Gofal Bryn Ivor Lodge**

Mae'r Cydlynnydd Gweithgareddau Arweiniol yng Nghartref Gofal Bryn Ivor Lodge yng Nghas-bach wedi cysylltu â ni. Mae rhai o'u preswylwyr yn gyn-weithwyr y GIG ac yn awyddus i feithrin cysylltiadau â'n Cangen o'r NHSRF. Mae Barbara Davies mewn trafodaethau ar hyn o bryd gyda'r cydlynnydd i weld sut y gallwn gymryd rhan.

---

## **Blwch awgrymiadau**

Fel y trafodwyd yn ein cyfarfod diwethaf mae'r blwch awgrymiadau ar gael heddiw ar gyfer eich syniadau ac adborth am ein Cangen. Rhowch wybod i ni beth yw eich barn er mwyn ein helpu i gynllunio ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

## Cynllun Cadetiaid Nyrsio RCN Tywysog Cymru

Yr wythnos hon, mae myfyrwyr iechyd a gofal cymdeithasol lleol o Goleg Gwent wedi bod yn cymryd rhan yn rhaglen Cadetiaid Nyrsio'r Coleg Nyrsio Brenhinol (RCN) drwy fynychu profiad gwaith mewn ysbytai yng Ngwent.

Mae hyn yn digwydd yn ystod Wythnos Genedlaethol Gyrfaoedd (4ydd-9fed Mawrth 2024), ac mae'r myfyrwyr wedi bod yn treulio'r wythnos yn archwilio gyrfa mewn iechyd a gofal cymdeithasol drwy gael profiad ymarferol o weithio mewn lleoliad clinigol fel Cadetiaid Nyrsio'r RCN.

Mae Cynllun Cadetiaid Nyrsio RCN Tywysog Cymru yn bartneriaeth gyda dysgwyr ifanc a'r nod yw datblygu sgiliau ar gyfer bywyd a chyflogaeth mewn nyrsio a'r teulu nyrsio.

Gan ddechrau eu hwythnos gyda diwrnod anwytho a chroeso, cafodd y Cadetiaid hyfforddiant hanfodol i'w galluogi i ymgymryd â gwaith yn eu lleoliad ward, gan gynnwys dysgu am Werthoedd ac Ymddygiadau'r Bwrdd Iechyd; cymryd rhan mewn ambell i ymarfer chwarae rôl er mwyn datblygu eu sgiliau cyfathrebu a thosturi; hyfforddiant CPR; a chael taith o amgylch Ysbyty Athrofaol y Faenor. Roedd modd i'r myfyrwyr hefyd glywed gan nyrsys presennol wrth iddynt drafod eu llwybr gyrfa ar draws y Bwrdd Iechyd, yn ogystal â chwrrd â rhai o wirfoddolwyr hoffus y Bwrdd Iechyd – Pets as Therapy Dogs – a chlywed am y gwahaniaeth y maent yn ei wneud i gleifion.

Yn dilyn eu cyfnod anwytho, dewiswyd lleoliadau i'r myfyrwyr ar wardiau gwahanol ar draws ysbytai Gwent er mwyn rhoi profiad iddynt o weithio mewn amgylchedd ysbyty.

## DIWEDDARIAD TEITHIAU

**WRTH ARCHEBU LLE AR GYFER UNRHYW DDIGWYDDIAD YCHWANEGWCH YR HOLL ENWAU A LLEOLIAD CODI AR GYFER PAWB SY'N BWRIADU YMUNO Â'R DIGWYDDIAD.**

### **AMGUEDDFA AWYROFOD BRYSTE**

**MAE'R DAIRH HON WEDI'I HARCHEBU AR GYFER DYDD MERCHER 17EG EBRILL  
COST £40 SY'N CYNNEWYS MYNEDIAD, TAITH CONCORDE, BWS A CHYFRANIAD I'R GYRWR  
ARCHEBU A THALIAD TERFYNOL (BALANS A Thaliad Llawn) HEDDIW OS GWELWCH YN DDA.  
BYDDWN YN DEFNYDDIO BYSYS ANSLOW ETO AR YR ACHLYSUR HWN.**

### **AMSEROEDD CODI'R BWS**

**GORSAF FYSUS CWMBRAN 09-15AM**

**RIVERSIDE CASNEWYDD 09-30AM**

**FFORDD DDEUOL CAS-GWENT TUA 09-40AM**

**BYDDWN YN GADAEI BRYSTE AM 16-00PM**

### **GÊM DDARTIAU**

DYDD MERCHER 22AIN MAI  
BOWLIAU DAN DO A CHANOLFAN CHWARAEON CASNEWYDD  
AMSER – 12-00 HRS  
COST BWFFE A BAR £10 - I'W DALU YNG NGHYPARFOD MIS EBRILL  
CROESO I BARTNERIAID YN ENWEDIG OS BYDDANT YN CHWARAE.

### **TAITH DDIRGEL FLYNYDDOL**

BYDD Y DAITH YN CAEL EI CHYNNAL DDYDD IAU 20FED MEHEFIN COST £20  
TALIAD TERNYNOL YNG NGHYPARFOD MIS MAI  
MANYLION I DDILYN.  
BYDD ANGEN BLAENDAL O £10– 00 NA ELLIR EI DALU YN ÔL WRTH YCHWANEGU EICH  
ENW/ENWAU

### **GERDDI ABERGLASNEY**

MAE GŴYL FWYD A CHERDDORIAETH YM MIS MEDI.  
DIM MANYLION AR GAEL ETO

### **TAITH NADOLIG - LLEOLIAD I'W DDEWIS**

MAE'R DAITH WEDI'I THREFNU AR GYFER DYDD IAU 5ED RHAGFYR  
NODWCH YN EICH DYDDIADUR

### **TEITHIAU THEATR**

YN Y DYFODOL BYDD ANGEN BLAENOROL NAD OES MODD EI DALU'N ÔL O £5 WRTH ARCHEBU  
TOCYNNAU THEATR

### **NEWYDDION MAWR**

#### **MAE TINA TURNED THE MUSICAL YN DOD I GANOLFAN Y MILENIWM CAERDYDD YM MIS CHWEFOR 2026**

MAE'N RHAID I UNRHYW UN A HOFFAI WELD Y SIOE HON ROI GWYBOD I MI YN Y CYFARFOD  
HEDDIW GAN Y BYDD TOCYNNAU AR WERTH YM MIS EBRILL CYN EIN CYFARFOD NESAF.  
RWY'N CREDU Y BYDD HON YN SIOE BOBLOGAIDD FELLY BYDD ANGEN I NI ARCHEBU'N GYFLYM.

**AWGRYMIADAU OS GWELWCH YN DDA AR GYFER LLEOLIADAU Y GALLWN DREFNU  
CINIO NEU TE PRYNHAWN AR GYFER Y GRŴP YNDYNT. GALLWN DREFNU BOB  
YN AIL FIS NEU PAN NAD OES GENNYM WEITHGAREDD WEDI'I THREFNU**

CROESO I OEDOLION TEULU A FFRINDIAU AR Y RHAN FWYAF O DEITHIAU AC EITHRIO PAN FYDD  
RHIFAU'N GYFYNGEDIG. **BYDD AELODAU'N CAEL BLAENORIIAETH O RAN ARCHEBU**

**ER MWYN SICRHAU BOD MODD PARHAU I DREFNU TEITHIAU, CEFNOGWCH EICH GRŴP TEITHIO  
OS GWELWCH YN DDA**

## Cyfarfodydd nesaf

- **Dydd Llun, 15fed Ebrill 2024 - Sarah Robinson o Hope GB**, sef grŵp cymorth gwirfoddol sy'n
- darparu cymorth ymarferol ac anogaeth i bobl sydd wedi'u heffeithio gan awtistiaeth yn
- Nhorfaen a thu hwnt.
- **Bydd gennym hefyd stondin gacennau yn ein cyfarfod ym mis Ebrill**

## Eich Pwyllgor

Cadeirydd	Lynda Evans	Trefnwyr Raffl	Jen Martin
Is-Gadeirydd	<i>Swydd wag:</i>	Cyfarchwyr	Cynthia Matthews
Ysgrifennydd	<i>Swydd wag:</i>		Lilwyn Griffiths
Trysorydd	Denise Coldrick		Carol Cunnell
Trysorydd Cynorthwyol	Lilwyn Griffiths		Megan Williams
Llefarydd Ysgrifennydd	Joanne Butler		Barbara Davies
Ysgrifennydd Aelodaeth	Ann Hyde		
Llyfrau/Gwerthiannau/ Pleidlais o ddiolch Cydlynnydd	Pam E Jones		
Teithiau a gwibdeithiau	Delyn Hunt		
Swyddogion Lles	Caroline Pitt a Megan Williams		

## Gwybodaeth Cyswllt

Cadeirydd	Lynda Evans	01633 420668	<a href="mailto:lyndaevs@hotmail.co.uk">lyndaevs@hotmail.co.uk</a>
-----------	-------------	--------------	--

Ysgrifennydd			
Swyddogion Lles	Caroline Pitt Megan Williams	01633 660608 01633 420932	
Teithiau a gwibdeithiau	Delyn Hunt	01633 843140	<a href="mailto:delyn46@yahoo.co.uk">delyn46@yahoo.co.uk</a>

Cronfa Les Cymdeithas Ymdeol y GIG Sherry Smith, Swyddog Gweinyddol, Swyddfa Ganolog. Tel 01305 361317, [www.nhsrf.org.uk](http://www.nhsrf.org.uk)

## CYMDEITHAS YMDDEOL Y GIG - CANGEN GWENT

### FFURFLEN ADBORTH

Mae'r Pwyllgor yn awyddus i gael adborth gan aelodau ynghylch eu profiad o'n Cangen leol. Mae eich barn yn werthfawr er mwyn i ni allu gwneud gwelliannau yn ogystal â chynllunio ymlaen llaw ar gyfer teithiau, gweithgareddau a siaradwyr sydd o ddiddordeb i chi. A fydddech cystal â threulio ychydig funudau yn cwblhau'r holiadur hwn ac yna ei roi yn y blwch awgrymiadau sydd ar gael heddiw ac yn y cyfarfod nesaf.

Ydych chi'n mwynhau cyfarfodydd y Gangen? Os felly, beth sy'n dda amdanyn nhw?

Pa agweddau nad ydynt cystal?

Pa newidiadau/gwelliannau allwn ni eu gwneud?

A ydych chi'n teimlo fod croeso i chi yn y cyfarfodydd?

Ydych chi'n mwynhau'r rhaglen teithiau a gweithgareddau a drefnir gan y Gangen?

A oes unrhyw deithiau a gweithgareddau yr hoffech eu gweld yn cael eu cynnwys?

Unrhyw sylwadau eraill